

Safleoedd Arddangos Llaeth Cyswllt Ffermio

MOUNT JOY FARM

Safle Arddangos: MOUNT JOY FARM

- William Hannah a'i deulu

Swyddog Technegol: Simon Pitt

Teitl y Prosiect: Dethol gwell stoc cyfenwid mewn buches ar laswellt sy'n lloea yn y gwanwyn

Cyflwyniad i'r prosiect:

Mae brido gwell buchod mewn buchesi sy'n lloea mewn bloc yn y gwanwyn yn heriol gan fod llawer o fuchesi naill ai ddim ond yn cofnodi rhan o'r cynhyrchiant llaeth neu ddim yn cofnodi o gwbl. Ffrwythlondeb yw'r prif ymwr dros y dewis, mae'n sicrhau bod cymaint o fuchod a heffrod â phosibl yn lloea o fewn naw wythnos i'w gilydd. Arweiniodd hyn at weld y cynnydd genetig o ran nodweddion cynhyrchu ac iechyd yn cael eu gymu yn unig gan ochr y tarw. Mae amlygu unigolion a grwpiau o fuchod benyw i fagu oddi wrthynt i ddangos gwelliant genetig parhaus yn allweddol i sicrhau bod y nifer gorau o Gilogramau o Solidau Llaeth yn cael eu cynhyrchu gan bob buwch, heb anghofio'r angen i loea bob gwanwyn.

Amcanion y Prosiect:

Bydd prosiect ar fuches William Hannah o 300 o fuchod Friesian math Seland Newydd yn canolbwyntio ar genotypeio crows cyfan o heffrod cyflo i ddeithol yr unigolion i'w cadw ar rhai i'w gwerthu fel rhai sydd dros ben. Yn y gorffennol, roedd eu dethol yn seiliedig ar ymddangosiad a dyddiad lloea, ond trwy ddefnyddio Adroddiad Genetig y Fuches, bydd heffrod yn cael eu gosod yn eu trefn gyda dibynadwyedd cynyddol ar y

Mynegai Lloea yn y Gwanwyn (£SCI) sef y mynegai penodol ar gyfer y Deyrnas Unedig a ddefnyddir ar fuchesi sy'n lloea yn y gwanwyn. Bwriad y prosiect yw dangos bod teilyngdod genetig, sydd yn ddangosydd perfformiad allweddol system gan AHDB ac yn dangos cynnydd yn £SCI cyfartalog y fuches ar ddiwedd y prosiect tair blynedd. Bydd agwedd arall ar y gwaith ym Mount Joy yn canolbwyntio ar osod buchod a heffrod sy'n lloea yn eu trefn o ran effeithlonrwydd, gan ddefnyddio'r ffon fesur o Gilogramau o Solidau Llaeth a gynhyrchir i bob cilogram o bwysau byw (kgMS/kgLW) fydd yn cael ei wneud trwy bwysio'r buchod ar 100 diwrnod yn lloea a defnyddio cofnodion lloea 305 diwrnod i gael cyfanswm y pwysau Braster a Phrotein. Unwaith eto, bydd targedu semen y mae ei ryw yn hysbys ar y buchod hyn yn sicrhau bod epil benyw o anifeiliaid effeithlon a ffrwythlon yn cael eu cadw yn y fuches.

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

- Cynnydd £SCI genetig y fuches
- kgMS/kgLW



Ffig 1. William Hannah, Mount Joy

LLINELL AMSER A CHERRIG MILLTIR:

